


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Abereiddi/Pwll-caerog

Teithiau Byr



**GRADDFA:** 0 200 400 m

**PELLTER/HYD:** 2.3 milltir (3.7 km) 1 awr

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** \*Strumble Shuttle 404 (\*tymhorol, galw a theithio)

**CYMERIAD:** Arfordir garw, caeau a da byw, gweddol wastad


**CHWILIWCH AM:** Caer Oes Haearn Caerau

## CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y lwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatau

## ALLWEDD

- Lwybr Cylch
- Lwybr Arfordir Sir Benfro  
Lwybr Cenedlaethol
- Lwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileddau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



# Abereiddi/Pwll-caerog

## Teithiau Byr

**Hyd:** 1 awr

**Pellter :** 2.3 milltir (3.7 km)

**Cludiant cyhoeddus:** \*Strumble Shuttle 404 (\*tymhorol, galw a teithio).

**Cyfeirnod map:** SM797311

*Taith sy'n eich tywys chi ar hyd darn o'r arfordir sy'n gyfoeth o dreftadaeth.*

**Chwiliwch am:** Caer Oes Haearn Caerau.

Ar lawer o'r tir ar y llwybr hwn fe allwch weld ôl chwarelu llechi yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae 'Chwarelau môr', sy'n cael eu ffurfio wrth i'r môr orlifo i hen weithfeydd chwarel, yn nodwedd unigryw o'r ardal. Efallai mai'r enghraifft orau yw'r Lagŵn Glas yn Abereiddi i'r gogledd - mae'n werth gadael y llwybr am ychydig i'w weld.

Mae yna Gaer Oes Haearn yng Nghaerau sy'n edrych allan dros y môr. Mae creigiau garw Bae Abereiddi yn cynnwys llechi Ordoficaidd sy'n erydu'n hawdd, yn hytrach na'r creigiau igneaid caletach eraill ym Mhenmaen Dewi a Phen-caer (Chwiliwch am ffosilau graptolitau fforc diwnio, organebau fel plancton a oedd yn byw mewn aneddiadau - yn y graig).

Mae M Rose o'r Barri wedi bod ar y daith hon ac yn dweud: "Mae Abereiddi yn un o fy hoff lefydd i yn Sir Benfro. Dw i wedi cerdded a chaiacio'r ardal. Mae'n ddarn hyfryd o'r arfordir - nid yw'n rhy egniol i'w cherdded, ac mae yna lawer o gildraethau bach. Weithiau fe allwch chi weld morloi bach yn hwyr yn yr Haf. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys y Lagŵn Glas, sy'n atyniad mawr i

ddynion ifanc sy'n neidio i'r môr o uchderau dychrynlyd, a'r fan sydd fel arfer ar draeth Abereiddi ble gallwch chi gael paned o de ac, os ydych chi'n lwcus, mecryll ffres."

**Cymeriad:** Arfordir garw, caeau a da byw, gweddol wastad.

